

***BRO DWYNWEN 31/12/2023***  
***Sul Cyntaf y Nadolig***  
***First Sunday of Christmas***

**Colect 13**

Hollalluog Dduw, a'n creaiſt yn rhyfeddol ar dy ddelw dy hun, a'n hadfer yn fwy rhyfeddol byth trwy dy Fab Iesu Grist: caniatâ, fel y daeth ef i gyfranogi o'n dynoliaeth, i ninnau rannu bywyd ei ddwyfoldeb; sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi  
a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Collect 13**

Almighty God, who wonderfully created us in your own image and yet more wonderfully restored us through your Son Jesus Christ: grant that, as he came to share in our humanity, so we may share the life of his divinity; who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

**Eseia 61.10 - 62.3**

Llawenychaf yn fawr yn yr ARGLWYDD, gorfoleddaf yn fy Nuw; canys gwisgodd amdanaf wisgoedd iachawdwriaeth, taenodd fantell cyfiawnder drosof, fel y bydd priodfab yn gwisgo'i dorch, a phriodferch yn ei haddurno'i hun â'i thlysau.

Fel y gwna'r ddaear i'r blagur dyfu, a'r ardd i'r hadau egino, felly y gwna'r ARGLWYDD Dduw i gyfiawnder a moliant darddu gerbron yr holl genhedloedd.

Er mwyn Seion ni thawaf, er mwyn Jerwsalem ni fyddaf ddistaw, hyd oni ddisgleiria'i chyfiawnder yn llachar, a'i hiachawdwriaeth fel fflagl yn llosgi.

Bydd y cenedloedd yn gweld dy gyfiawnder, a'r holl frenhinoedd dy ogoniant; gelwir arnat enw newydd, a roddir i ti o enau'r ARGLWYDD.

Byddi'n goron odidog yn llaw'r ARGLWYDD, ac yn dorch frenhinol yn llaw dy Dduw.

**Isaiah 61.10 - 62.3**

I will greatly rejoice in the LORD, my whole being shall exult in my God; for he has clothed me with the garments of salvation, he has covered me with the robe of righteousness, as a bridegroom decks himself with a garland, and as

a bride adorns herself with her jewels. For as the earth brings forth its shoots, and as a garden causes what is sown in it to spring up, so the Lord GOD will cause righteousness and praise to spring up before all the nations.

For Zion's sake I will not keep silent, and for Jerusalem's sake I will not rest, until her vindication shines out like the dawn, and her salvation like a burning torch. The nations shall see your vindication, and all the kings your glory; and you shall be called by a new name that the mouth of the LORD will give. You shall be a crown of beauty in the hand of the LORD, and a royal diadem in the hand of your God.

**Psalm 148 or \*148. 7-14**

Praise the LORD! Praise the LORD from the heavens; praise him in the heights! Praise him, all his angels; praise him, all his host!

Praise him, sun and moon; praise him, all you shining stars!

Praise him, you highest heavens, and you waters above the heavens!

Let them praise the name of the LORD, for he commanded and they were created.

He established them for ever and ever; he fixed their bounds, which cannot be passed.

\* Praise the LORD from the earth, you sea monsters and all deeps, fire and hail, snow and frost, stormy wind fulfilling his command! Mountains and all hills, fruit trees and all cedars! Wild animals and all cattle, creeping things and flying birds!

Kings of the earth and all peoples, princes and all rulers of the earth! Young men and women alike, old and young together!

Let them praise the name of the LORD, for his name alone is exalted; his glory is above earth and heaven. He has raised up a horn for his people, praise for all his faithful, for the people of Israel who are close to him.

Praise the LORD!

**Salm 148 neu \*148. 7-14**

Molwch yr ARGLWYDD.

Molwch yr ARGLWYDD o'r nefoedd, molwch ef yn yr uchelderau.

Molwch ef, ei holl angylion; molwch ef, ei holl luoedd.

Molwch ef, haul a lleuad; molwch ef, yr holl sêr disglair.

Molwch ef, nef y nefoedd, a'r dyfroedd sydd uwch y nefoedd.

Bydded iddynt foli enw'r ARGLWYDD, oherwydd ef a orchynnodd, a chrewyd hwy;

fe'u gwnaeth yn sicr fyth bythoedd; rhoes iddynt ddeddf nas torrir.

\* Molwch yr ARGLWYDD o'r ddaear, chwi ddreigiau a'r holl ddyfnderau, tân a chenllysg, eira a mwg, y gwynt stormus sy'n ufudd i'w air; y mynyddoedd a'r holl fryniau, y coed ffrwythau a'r holl gedrwydd; anifeiliaid gwyllt a'r holl rai dof, ymlusgiaid ac adar hedegog; brenhinoedd y ddaear a'r holl bobloedd, tywysogion a holl farnwyr y ddaear; gwŷr ifainc a gwryfon, hynafgwyr a llanciau hefyd.

Bydded iddynt foli enw'r ARGLWYDD, oherwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafedig, ac y mae ei ogoniant ef uwchlaw daear a nefoedd. Y mae wedi dyrchafu corn ei bobl, ac ef yw moliant ei holl ffyddloniaid, pobl Israel, sy'n agos ato.

Molwch yr ARGLWYDD.

#### **Galatiaid 4. 4-7**

Ond pan ddaeth cyflawniad yr amser, anfonodd Duw ei Fab, wedi ei eni o wraig, wedi ei eni dan y Gyfraith, i brynu rhyddid i'r rhai oedd dan y Gyfraith, er mwyn i ni gael braint mabwysiad. A chan eich bod yn blant, anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'n calonnau, yn llefain, "Abba! Dad!" Felly, nid caethwas wyt ti bellach, ond plentyn; ac os plentyn, yna etifedd, trwy weithred Duw.

#### **Galatians 4. 4-7**

But when the fullness of time had come, God sent his Son, born of a woman, born under the law, in order to redeem those who were under the law, so that we might receive adoption as children. And because you are children, God has sent the Spirit of his Son into our hearts, crying, 'Abba! Father!' So you are no longer a slave but a child, and if a child then also an heir, through God.

#### **Luc 2. 15-21**

Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, "Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano." Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt. Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a

glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.

Pan ddaeth yr amser i enwaedu arno ymhen wyth diwrnod, galwyd ef Iesu, yr enw a roddwyd iddo gan yr angel cyn i'w fam feichiogi arno.

#### **Luke 2. 15-21**

When the angels had left them and gone into heaven, the shepherds said to one another, 'Let us go now to Bethlehem and see this thing that has taken place, which the Lord has made known to us.' So they went with haste and found Mary and Joseph, and the child lying in the manger. When they saw this, they made known what had been told them about this child; and all who heard it were amazed at what the shepherds told them. But Mary treasured all these words and pondered them in her heart. The shepherds returned, glorifying and praising God for all they had heard and seen, as it had been told them.

After eight days had passed, it was time to circumcise the child; and he was called Jesus, the name given by the angel before he was conceived in the womb.

#### **Ôl Gymun 14**

Dad nefol,

y cyfranogodd dy Fab bendigaid yn Nasareth

o fywyd cartref daearol,

cynorthwya dy Eglwys i fyw fel un teulu,

wedi ei huno mewn cariad ac ufudd-dod,

a dwg ni oll o'r diwedd i'n cartref yn y nefoedd;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

#### **Post Communion Prayer 14**

Heavenly Father,

whose blessed Son shared at Nazareth the life of an earthly home:

help your Church to live as one family,

united in love and obedience,

and bring us all at last to our home in heaven;

through Jesus Christ our Lord.